TraCC
Trafnidiaeth Canolbarth Cymru
Mid Wales Transportation

Beth ddylai gael ei gynnwys?

Mae TraCC ar hyn o bryd yn ystyried pa brosiectau allweddol i'w cynnwys yn y rhaglen pum mlynedd. Ond bydd yn rhaid gosod y prosiectau hynny yn nhrefn blaenoriaeth a'u gosod o dan y penawdau priodol.

Hoffai TraCC wybod beth yw eich barn chi ynglŷn â beth i'w gynnwys yn y Cynllun Trafnidaith Rhanbarthol.

A fyddech cystal â llenwi'r holiadur a ddarperir trwy nodi eich 3 prif flaenoriaeth a chynnwys unrhyw sylwadau sydd gennych.

- Darparu gwasanaeth bws bob awr rhwng y prif drefi
- Darparu gwasanaeth trên bob awr ar Brif Reilffordd y Cambrian (Amwythig i Aberystwyth)
- Gwella'r prif rwydwaith ffyrdd yng Nghanolbarth Cymru, yn arbennig o safbwynt diogelwch a chyfleoedd i basio cerbydau eraill
- Gwella llwybrau ffyrdd strategol - rhwng De a Gogledd yng Nghanolbarth Cymru a gyda Gorllewin Canolbarth Lloegr a'r A5/M54
- Gwella cyfleusterau ar gyfer teithwyr bysiau (cyfnewidfeydd, cysgodfannau, hysbysrwydd)
- Datblygu Trafnidiaeth Gymunedol, gan gynnwys Galw'r Gyrrwr
- Symud lorïau trymion o ganol trefi a phentrefi
- Cael mesurau gostegu traffig i leihau cyflymder mewn mannau sensitif
- Gwella cyfleusterau ar gyfer cerddwyr a beicwyr
- Ystyried y cyfleoedd ar gyfer llinellau rheilffordd newydd, er enghraifft Aberystwyth i Landeilo neu Caersws i Lanfair ym Muallt, neu orsaf newydd yng Ngharno